



**Undeb
Myfyrwyr**
PCYDDS

UWTSD
**Students'
Union**

1 Llys Glas
Alexandra Road
Swansea
SA1 5AL

01792 482 100
union@uwtsd.ac.uk
uwtsdunion.co.uk
@uwtsdunion

Y System Gynrychiolwyr Cyrsiau Gwybodaeth a Chanllawiau Etholiadau ar gyfer Disgyblaethau Academaidd

Mae'r pecyn hwn wedi'i baratoi gan Undeb y Myfyrwyr er mwyn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer Disgyblaethau Academaidd, gan gynnwys canllawiau ar gyfer cydlynu eu hetholiadau Cynrychiolwyr Cwrs ar gyfer y flwyddyn academaidd 2021/22.

SYLWCH: Bydd angen i bob Cynrychiolydd Cwrs gael ei ethol a'i hyfforddi erbyn cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Staff-Myfyrwyr o'r flwyddyn academaidd

Mae canllaw ar gyfer sut i gynnal etholiadau ar dudalen 3 o'r ddogfen hon, gan gynnwys dolen i'r fideo sy'n gyflwyniad ar gyfer Cynrychiolwyr Cwrs.

Cysylltwch â studentvoice@uwtsd.ac.uk os ydych chi'n cael unrhyw anawsterau neu os oes gennych chi unrhyw gwestiynau.





**Undeb
Myfyrwyr**
PCYDDS

**UWTSD
Students'
Union**

1 Llys Glas
Alexandra Road
Swansea
SA1 5AL

01792 482 100
union@uwtsd.ac.uk
uwtsdunion.co.uk
@uwtsdunion

Y System Gynrychiolwyr Cyrsiau

Mae Cynrychiolwyr Cwrs yn rhan annatod o'n hymagweddiad tuag at bartneriaeth, sydd â'r nod o gynnwys llais myfyrwyr mewn llunio penderfyniadau ar bob lefel ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (PCyDDS). Er mai cynrychiolwyr myfyrwyr yw Cynrychiolwyr Cwrs, er mwyn i'n system fod yn effeithiol, mae gan staff academiaidd rôl i'w chwarae mewn sicrhau bod cynrychiolwyr yn cael eu hethol ar gyfer pob cwrs.

Mae Cynrychiolwyr Cwrs yn gweithredu fel sianel ar gyfer llais myfyrwyr yn eu rôl ar bwyllgorau Staff-Myfyrwyr. Maent hefyd yn darparu adborth i Undeb y Myfyrwyr ar bob agwedd o'r profiad addysgol, megis datblygiad cwricwlwm, adborth ac asesiad, strwythur cyrsiau, cyfleusterau ac adnoddau, dulliau dysgu/addysgu, a phrofiad academiaidd cyffredinol eu cyd-fyfyrwyr. Bydd yr adborth hwn a'r cynrychiolwyr eu hunain yn chwarae rôl allweddol mewn prosesau ansawdd mewnol megis Adolygiadau Rhaglenni Blynnyddol ac adolygiadau ar lefel Ysgol a Chyfadrannau.

Mae cyfranogiad cynrychiolwyr myfyrwyr ym mhob agwedd ar fywyd academiaidd yn hanfodol mewn sicrhau bod y Brifysgol yn cwrdd â'i gofynion fel y disgrifir ym Mhennod B5 o God Ansawdd y DU.

Unwaith y cânt eu hethol, bydd Undeb y Myfyrwyr yn darparu hyfforddiant ar gyfer pob Cynrychiolydd, ac rydym yn parhau i fod yn bwynt cyswllt iddynt trwy gydol y flwyddyn academiaidd.





Disgwyliadau a osodir ar Gynrychiolwyr Cyrsiau

- Mynychu a chyfranogi ym mhob Pwyllgor Staff-Myfyrwyr (tri'r flwyddyn)
- Mynychu hyfforddiant Cynrychiolwyr Cyrsiau a ddarperir gan Undeb y Myfyrwyr
- Cwrdd â'u Cynrychiolydd Llais Myfyrwyr a Chynrychiolwyr Cyrsiau eraill o fewn y Ddisgyblaeth i drafod syniadau a materion sy'n codi
- Hyrwyddo'u rôl a sut gall myfyrwyr gysylltu â nhw
- Cadw Undeb y Myfyrwyr yn gyfoes â gweithgareddau a materion o bwys
- Siarad â myfyrwyr ar eu cwrs a chanfod beth sydd ar eu meddwl ac unrhyw faterion a all godi
- Hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer adborth gan fyfyrwyr, fel arolygon Gwerthuso Modiwlau ac arolygon Cenedlaethol

Cefnogaeth ar gyfer Cynrychiolwyr Cwrs

- Hyfforddiant wedi ei deilwra'n arbennig ar gyfer Cynrychiolwyr Cwrs i baratoi Cynrychiolwyr ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod
- Sesiynau briffio rheolaidd ac ymarferol ar faterion sy'n berthnasol i'w rôl
- Mynediad i hyfforddiant gwirfoddol ychwanegol
- Adnoddau ar-lein i gydnabod eu cynnydd a'r hyn maen nhw'n ei gyflawni
- Cyswllt rheolaidd â swyddogion a staff Undeb y Myfyrwyr
- Help i hyrwyddo eu rôl a chyfleoedd i fyfyrwyr fynd ati i ddarparu adborth a llunio eu profiad addysgol





Sut i gynnal: Etholiadau Cynrychiolwyr Cwrs

Ni ddylai hyn gymryd mwy na 15 munud.

Argymhellir bod Camau 1-4 yn digwydd o leiaf ddiwrnod cyn Camau 5 a 6. Mae hyn er mwyn caniatáu digon o amser i fyfyrwyr ystyried y rôl.

Cam 1: Cyflwyno fideo Cynrychiolwyr Cyrsiau'r UM.

Mae'r Fideo hwn yn esbonio'r system a pham y gallai pobl fod eisiau cynnig eu hunain ar gyfer rôl Cynrychiolydd Cwrs.

<https://www.youtube.com/watch?v=ZKuKBJJBwE>

Rhagarweiniad a awgrymir:

"Rydyn ni'n mynd i dreulio rhan gyntaf y sesiwn hon yn ethol eich Cynrychiolwyr Cwrs ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Dwi'n mynd i chwarae fideo gan eich Undeb Myfyrwyr fydd yn esbonio'r cynllun, a'r gobaith yw y bydd hyn yn eich annog i enwebu eich hun. Mae hon yn rôl allweddol, ac rydw i'n gobeithio y byddwch chi i gyd yn ystyried ymgeisio i fod yn gynrychiolydd cwrs. Dyma'r fideo."

Cam 2: Chwarae'r Fideo (rhannwch eich sgrin)

Cam 3: Dangos y ddolen isod ar y sgrin am ychydig funudau.

Mae'r ddolen isod yn nodi'n fanylach i'r myfyrwyr beth yw manteision dod yn gynrychiolydd cwrs, ynghyd â rhestr gryno o'r cyfrifoldebau sy'n perthyn i'r rôl:

<https://www.uwtsdunion.co.uk/coursereps>

Cam 4: Gofyn am enwebiadau

Gellir gwneud hyn trwy ofyn i bobl godi eu dwylo neu fynegi eu diddordeb yn y nodwedd sgwrsio ar MS Teams os ydych chi ar-lein yn unig. Os ydych chi'n cynnal sesiwn wyneb-yn-wyneb, anogwch y myfyrwyr i ddod atoch chi ar amser priodol neu gysylltu trwy e-bost.

Esboniwch fod rhaid i bob cwrs fod â chynrychiolydd a bod angen i wirfoddolwyr ddweud ychydig o eiriau o flaen y grŵp ynglŷn â pham eu bod eisiau bod yn gynrychiolydd.

Os nad oes unrhyw un yn fodlon enwebu eu hunain ar y dechrau, dyma rai pethau y gallech chi eu dweud:





"Mae hon yn rôl bwysig ac yn gyfle gwych. Nid yn unig mae'n hanfodol bod eich barn ar eich profiad Prifysgol yn cael ei mynegi i'r Brifysgol ehangach, ond mae bod yn Gynrychiolydd Cwrs yn gryn lawer o hwyl a bydd yn eich helpu i ddatblygu amryw o sgiliau defnyddiol a fydd yn edrych yn wych ar eich CV. Mae Undeb y Myfyrwyr yn darparu hyfforddiant llawn, a does dim angen unrhyw wybodaeth ymlaen llaw arnoch chi; y cyfan sydd ei angen yw'r gallu i siarad â'ch cyd-fyfyrwyr. Mae angen i ni ethol Cynrychiolydd heddiw, felly os ydych chi'n eistedd ger rhywun rydych yn meddwl byddai'n gwneud cynrychiolydd da, yna dwedwch hynny wrthynt; neu os oes gennych chi ddiddordeb yn y rôl, cyflwynwch eich hun.

Cam 5: Rhowch wahoddiad i'r ymgeiswyr ddweud ychydig o eiriau ynglŷn â pham maent am fod yn Gynrychiolydd.

Hyd yn oed os dim ond un person sy'n cyflwyno ei hun, mae'n dal i fod yn arfer da gofyn iddynt i wneud hyn.

Cam 6: Y Bleidlais


Ar ôl rhoi digon o amser i'r myfyrwyr ystyried cyflwyno eu hunain ar gyfer y rôl, dylid cynnal pleidlais ymysg y dosbarth i ddewis Cynrychiolydd Cwrs o blith y myfyrwyr sydd wedi enwebu eu hunain.

Os yw amser yn caniatáu, mae pleidlais syml gan ddefnyddio papurau pleidleisio y gellir ei wneud o bapur wedi'i ailgylchu, yn un ffordd o gynnal y bleidlais. Y cyfan sy'n ofynnol yw bod pob myfyriwr yn cyflwyno un papur pleidleisio gydag enw'r ymgeisydd arno


Lle nad yw hyn yn bosibl, ac o dan yr amgylchiadau presennol gyda rhywfaint o'r addysgu'n digwydd ar-lein, ac er mwyn cynnal y bleidlais hon mewn modd effeithlon, hawdd a chyfrinachol, byddem yn argymhell defnyddio pleidlais trwy *Doodle*. Mae hwn yn ddarn o feddalwedd am ddim sydd ar gael o <https://doodle.com/cy/>. Does dim angen i chi lawrlwytho unrhyw beth na meddu ar gyfrif i ddefnyddio *Doodle*. Isod mae canllaw cam wrth gam ar sut i osod a defnyddio *Doodle* ar gyfer etholiad Cynrychiolydd Cwrs. Dylai'r broses hon gymryd tua 3 munud.

1. Cam 1: Ewch i <https://doodle.com/cy/>
2. Cam 2: Cliciwch ar y botwm coch 'create doodle' yn y gornel dde ar frig y dudalen we.






3. Cam 3: Cwblhewch fanylion y bleidlais yn y meysydd ar y sgrin. Dylech gynnwys Teitl a brawddeg sy'n disgrifio'r bleidlais. Cliciwch '*continue*' pan fyddwch chi wedi gwneud hyn.





4. Cam 4: Cliciwch ar yr opsiwn 'Text' ar y sgrin 'What Are The Options'. Ychwanegwch bob ymgeisydd posib fel opsiynau yn y meysydd isod. Cliciwch 'continue' pan fyddwch chi wedi gwneud hyn.



5. Cam 5: ***Pwysig*** Dewiswch yr opsiynau 'Limit participants to a single vote' a 'Hidden poll' o'r rhestr o nodweddion ar ochr chwith y sgrin. Mae hyn yn sicrhau mai dim ond un ymgeisydd y gall y myfyrwyr bleidleisio drosto ac y gall pob myfyriwr bleidleisio'n gyfrinachol, heb fod ei gyd-ddisgyblion yn gallu gweld. Chi fydd yr unig berson sy'n gallu gweld canlyniadau'r bleidlais Cliciwch 'continue' pan fyddwch chi wedi gwneud hyn.





**Undeb
Myfyrwyr
PCYDDS**

**UWTSD
Students'
Union**

1 Llys Glas
Alexandra Road
Swansea
SA1 5AL

01792 482 100
union@uwtsd.ac.uk
uwtsdunion.co.uk
@uwtsdunion

STEP 3 OF 4
Poll settings

☐ Yes, no, if need be
Participants can indicate if an option is not ideal for them.

☐ Limit the number of votes per option
First come, first served. Once the spots are filled, the option is no longer available.

☒ Limit participants to a single vote
Participants can only select one option.

☒ Hidden poll
Participants' names, comments and votes are confidential. Only you can see the results.

[Unlock with Premium](#)

☐ Set deadline
Motivate participants to vote sooner
Mon 17 Aug

☐ Set automatic reminders
Remind your invitees to vote.

☐ Ask for contact information
Ask for your participants' emails, phone numbers, or mailing addresses.

[Continue](#)

6. Cam 6: Nodwch eich enw a'ch cyfeiriad e-bost. Dyma ble bydd y ddolen i'r canlyniadau yn cael ei hanfon. Cliciwch 'continue' pan fyddwch chi wedi gwneud hyn.

CarFinance 247

To borrow
£ 6,500

Pay back over
5 years

[Get a quote](#) No impact on credit score

Borrowing £6,500 over 5 years with a representative APR of 27.4%, an annual interest rate of 27.4% (Fixed) and a deposit of £0.00, the amount payable would be £108.74 per month, with a total cost of credit of £4,824.37 and a total amount payable of £11,324.37. CarFinance 247 Limited is a credit broker. Universal Square, Devonshire Street North, Manchester, M12 6JH

English (GB)

Sign up Log in

STEP 4 OF 4
Tell your participants who you are

Name
Professor Morrison

Email
evan.morrison@uwtsd.ac.uk

[Finish](#)


WITH REGINA BLITZ YOU CAN CLEAN IT UP IN A FLASH

Regina Blitz





7. Cam 7: Copiwch y ddolen a ddarperir a'i gludo yn y dull o'ch dewis ar gyfer cyfathrebu â'r myfyrwyr, e.e. trwy Moodle, grŵp Teams neu e-bost. Gofynnwch i'r myfyrwyr bleidleisio trwy'r ddolen dros eu dewis nhw fel Cynrychiolydd Cwrs, a gosodwch derfyn amser ar gyfer pleidleisio.



8. Cam 8: Ar ôl i'r dyddiad cau fynd heibio, cliciwch y ddolen o'r e-byst sy'n eich hysbysu bod unigolion wedi pleidleisio. Bydd y canlyniadau i'w gweld ar y dudalen *Doodle*. Chi fydd yr unig un i weld y canlyniadau hyn.







**Undeb
Myfyrrwyr
PCYDDS**

**UWTSD
Students'
Union**

1 Llys Glas
Alexandra Road
Swansea
SA1 5AL

01792 482 100
union@uwtsd.ac.uk
uwtsdunion.co.uk
@uwtsdunion



Os yw'r bleidlais yn gyfartal, dylech setlo'r mater drwy daflu ceiniog (dyma beth fyddai'n digwydd mewn etholiad yn San Steffan mewn achos o bleidlais gyfartal!)

Hintiau handi: Mae'n bosib y byddwch chi am osod e-byst gan *Doodle* i fynd i ffolder ar wahân yn eich blwch-derbyn ymlaen llaw, oherwydd efallai y byddwch chi'n derbyn nifer fawr o negeseuon e-bost o'r wefan wrth i fwy o bobl bleidleisio.





**Undeb
Myfyrwyr**
PCYDDS

UWTSDB
**Students'
Union**

1 Llys Glas
Alexandra Road
Swansea
SA1 5AL

01792 482 100
union@uwtsd.ac.uk
uwtsdunion.co.uk
@uwtsdunion

Cam 7: Casglu Manylion

Unwaith y byddwch chi wedi ethol eich cynrychiolwyr, cwblhewch y ffurflen ganlynol:

<https://forms.office.com/r/0Hf15ac9Sp>

Bydd angen i'r UM wybod y canlynol ar gyfer pob Cynrychiolydd:

- Enw
- Cyfeiriad e-bost yn y brifysgol
- Rhif Myfyriwr
- Athrofa
- Campws
- Lefel o Astudio
- Pob Rhaglen y maen nhw'n eu cynrychioli.

Yna bydd Undeb y Myfyrwyr yn cysylltu â nhw at ddibenion hyfforddiant, i'w paratoi ar gyfer eu Pwyllgor Staff-Myfyrwyr cyntaf.

Diolch yn fawr iawn!

